

Cystadlaethau Llenyddol Eisteddfod Llandudoch 2023

Beirniad: y Prifardd Llŷr Gwyn Lewis

DALIER SYLW : Dyddiad Cau

Ebrill 21ain, 2023 – anfoner at yr Ysgrifennydd Llên Mrs Mair Volk, Tŷ Newydd Clawdd Cam, Llandudoch, Sir Benfro, SA43 3EA .

Hefyd derbynnir cynnyrch trwy e-bost o'i anfon at ellandudoch@gmail.com

(cofiwch gynnwys enw a manylion cyswllt (ffôn neu gyfeiriad), os gwelwch yn dda, neu chewch chi ddim cystadlu.

Cystadlaethau llenyddol agored:

- Cystadleuaeth y Gadair : Cerdd gaeth neu rydd - 'Newid' neu 'Y Daith'. Gwobr: Cadair fechan gywrain o waith ac yn rhoddedig gan Colin James, Dorchester a £75.00 er cof am W.R. Smart, yn rhoddedig gan ei ferched.
- Telyneg : Y Cwm 1af : £15.00
- Soned : Yr Afon 1af : £15.00
- Cyfres o benillion telyn neu dribannau yn ymwneud â Byd Natur. 1af : £15.00
- Englyn : Ddoe 1af : £15.00
- Cywydd cyfarch i unrhyw Gymro neu Gymraes 1af: 15.00
- Cerdd gynganeddol ar unrhyw fesur: 'Ar hyd y nos' 1af: £15.00
- Limrig yn cynnwys y llinell : 'Bydd pethau'n wahanol yfory'
- 1af : £10.00
- Cân ddigri hyd at 30 llinell : 'Gwastraff Amser.' 1af: £10.00
- Stori fer yn ymwneud â'r thema 'Dal gafael'. 1af : £15.00
- Cystadleuaeth CLEBRAN (Papur Bro'r Preseli) – erthygl addas i'w chyhoeddi mewn papur bro. 1af : £25.00
- Cyfansoddi tôn ar gyfer geiriau emyn Buddugol Eisteddfod Llandudoch 2022. (gw. isod) 1af: £15.00 (Beirniad: Catrin Hughes, Llanelli)

Emyn i'w chanu mewn gwasanaeth awyr agored (gan J Meurig Edwards, Aberhonddu)

Wedi'r gaeaf gerwin,
Gwanwyn ddaw i'r tir;
Natur eto'n deffro
Yn ei harddwch ir;
Am y cyffro ddaw i'r wlad,
Diolch wnawn i ti, o Dad.

Blodau'r maes a'r cloddiau
Ddaw i liwio'r byd;
Cawn ryfeddu eilwaith
Wrth eu gweld i gyd;
Diolch roddwn, Dduw, i ti
Am y pleser a gawn ni.

Deilio fydd y coedydd
Pan ddaw'r tywydd mwyn,
A daw cân aderyn
Eto o frig y llwyn;
Daethant eto'n ôl y drefn,
Diolch am eu gweld drachefn.

Gwna ni'n gadwriaethwyr
Tiroedd hoff ein gwlad;
Parchwn y dreftadaeth
Gawson ni, O Dad;
Cadw'r gwerthoedd sydd yn bod
I'r genhedlaeth sydd i ddod.

Cystadlaethau llenyddol i Ddysgwyr (Noddwyd gan Dysgu Cymraeg Sir Benfro)

- **Tlws Llenyddol y Dysgwyr**. Cystadleuaeth sy'n agored i unrhyw un sydd wedi dysgu Cymraeg fel oedolyn. Dau ddarn o lenyddiaeth mewn gwahanol ffurfiau. Gwobr: Tlws Coffa Rhin Palmer (rhoddedig gan ei theulu, i'w gadw am flwyddyn) a £50 (rhodd Teulu Dychwelfa).
- Lefel Mynediad (hyd at 100 o eiriau): Sgwrs yn y dosbarth Cymraeg 1af : £15.00 2il: £10; 3ydd: £5
- Lefel Sylfaen (hyd at 150 o eiriau): Diddordebau, 1af : £15.00 2il: £10; 3ydd: £5
- Lefel Canolradd (hyd at 200 o eiriau): Ystafell 101 – tri o fy nghas bethau. 1af : £15.00 2il: £10; 3ydd: £5
- Lefel Uwch/ Profiadol (350 gair neu fwy): Ennill. 1af : £15.00 2il: £10; 3ydd: £5
- Limrig yn cynnwys y llinell : “Wrth grwydro o gwmpas y pentre.” 1af : £10
- Cerdd Acrostig ar lythrennau'r gair 'LLANDUDOCH' 1af: £10

Cystadlaethau Llenyddol ar gyfer ieuenctid

- Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc i gystadleuwyr hyd at 21 oed : dau ddarn o lenyddiaeth greadigol ar unrhyw ffurf . Testun : agored. Gwobr : Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc (i'w gadw am flwyddyn), tlws parhaol a £30

11 oed a than 16:

- Darn o ryddiaith (e.e. stori, erthygl, deialog, blog): Y Llwybr. 1af : £10.00
- Darn o farddoniaeth ar unrhyw ffurf, ond dim mwy nac 20 llinell : Ar Goll
- 1af : £10.00

16 oed a than 26:

- Darn o ryddiaith (e.e. stori, erthygl, deialog, blog) : Y Llwybr. 1af : £10.00
- Darn o farddoniaeth ar unrhyw ffurf, ond dim mwy nac 20 llinell : Ar Goll. 1af : £10.00

Dyfernir y gwobrau yn y cystadlaethau llenyddol, ac eithrio'r Gadair, Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc a Thlws Llenyddol y Dysgwyr mewn

**NOSON BEIRNIADAETHAU
A THALWRN Y BEIRDD
am 7.30 pm, Nos Fercher, Mai 17eg 2023
yn Neuadd Ysgol Llandudoch**

yng nghwmni'r beirniad llên, y **Prifardd Llŷr Gwyn Lewis**
a'r Meuryn, y **Prifardd Ceri Wyn Jones**